**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**8 IONAWR 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 8 Ionawr 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Marion Bateman, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Ian Dunbar, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIAD:** Y Cynghorydd Adele Davies-Cooke

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y canlynol yn bresennol fel Aelodau Lleol:
Y Cynghorydd Hutchinson – ar gyfer Eitem 6.2 ar y Rhaglen (060374 - gohiriwyd)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd ac Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Arweinydd Tîm; Uwch Gynllunwyr; Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Uwch Gyfreithiwr; Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd; a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 44. SYLWADAU AGORIADOL

Yn ôl cais y Cadeirydd, Aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion, bu iddynt godi mewn tawelwch fel teyrnged i Peter Evans, y cyn Rheolwr Democrataidd a Llywodraethu, a fu farw.

## 45. DATGAN CYSYLLTIAD

Ar eitem agenda 6.3 (060336), nid oedd gan y Cynghorydd Christine Jones unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, fodd bynnag roedd wedi siarad yn gyhoeddus i gefnogi'r cais. Felly, bydd yn siarad am yr eitem a gadael yr ystafell cyn y drafodaeth ac yn pleidleisio ar yr eitem hon.

## 46. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan y Cyngor:

http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4509&LLL=0

## 47. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2019 yn gofnod cywir, cynigiwyd ac eiliwyd gan y Cynghorwyr Lloyd a Bithell.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai gwir a chywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 48. EITEMAU I'W GOHIRIO

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi) bod yr eitem ganlynol wedi'i hargymell i'w gohirio, oherwydd problem gyda pherchnogaeth tir sydd wedi dod i sylw'r swyddogion. Os y cytunir ar ohirio, bydd yr eitem yn dod yn ôl i'r Pwyllgor ar ôl cyflwyno hysbysiadau priodol a bod y mater wedi'i ddatrys.

**Eitem Agenda 6.2 – Cais llawn – Trawsnewid Bwyty/ Bar nas defnyddir bellach i 13 o Fflatiau/ Rhandai yn 14 Lôn Y Felin, Bwcle (060374)**

Cynigiodd y Cynghorydd Bithell y gohiriad ac eiliwyd gan y Cynghorydd Dunbar. Pan gynhaliwyd y bleidlais cafodd yr eitem ei gohirio.

Gofynnodd y Cynghorydd Peers a fydd yr adroddiad, pan fydd yn cael ei ailgyflwyno, yn mynd i'r afael â phryderon a rhai hynny gan y Cynghorydd Hutchinson fel Aelod lleol arall, ac i gynnwys ymateb gan adran Priffyrdd. Roedd ei bryderon ynghylch y llwybr troed sydd ar goll a materion arall a godwyd yn yr ymweliad safle. Siaradodd y Cynghorydd Richard Jones o blaid y cais hwn.

**PENDERFYNWYD:**

Bod eitem rhif 6.2 (060374) ar y rhaglen yn cael ei ohirio i gyfarfod nesaf y Pwyllgor am y rheswm a nodwyd.

## 49. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y'i cyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio sydd ynghlwm wrth atodiad.

## 50. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 10 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 2.30pm)

……………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy fynd i'n llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

## PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 8 IONAWR 2020

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 060360 | Cyngor Cymuned Llanfynydd | Cais Llawn – Adeiladu 2 fyngalo dwy ystafell wely a garej ddwbl ar wahân yn Greystones, Ffrwd Road, Cefn-y-Bedd, Wrecsam. | Siaradodd Dr A.H Clement yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr. A Williams (ymgeisydd), o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod fod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106 ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 060374 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Llawn – Trawsnewid Bwyty/ Bar nas defnyddir bellach i 13 o Fflatiau/ Rhandai yn 14 Lôn y Felin, Bwcle | Swyddogion i ymchwilio i'r materion a godwyd gan y Cynghorydd Peers. | **GOHIRIWYD** – i ddatrys y materion ynghylch tystysgrif perchnogaeth tir a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd**.** |
| 060336 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Llawn - Estyniad newydd 32 ystafell wely i gyfleuster cartref gofal presennol ac ardaloedd gweinyddol/gwasanaeth cysylltiedig, gyda gwaith tirlunio allanol yn Marleyfield House, Nant Mawr Road, Bwcle. | Siaradodd Mr T Rhodes (asiant) a Mr G. Jones (ar ran yr ymgeisydd) o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Christine Jones o blaid y cais ac yna gadawodd yr ystafell cyn y drafodaeth, gan ddychwelyd ar ôl i'r Pwyllgor benderfynu ar y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 060222 | Cyngor Cymuned Sealand | Cais i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl yn dilyn cymeradwyaeth amlinellol (058990) yn RAF Sealand, South Camp, Welsh Road, Sealand. | Siaradodd Mr. A Cole (asiant) yn cefnogi’r cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |